

## 2011 Rhif 339 (Cy.53)

### TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

#### Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Glanyrafon i Fraich Ddu, Gwynedd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

*Gwnaed* 07 Chwefror 2011

*Yn dod i rym* 12 Chwefror 2011

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A494) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarn penodol o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno;

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn:

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Mawrth 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Glanyrafon i Fraich Ddu, Gwynedd) (Cyfyngiadau Traffig a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 12 Chwefror 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu tynnu oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru yn gyflymach na 40 mya ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru yn gyflymach na 10 mya ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

6. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 07 Chwefror 2011

### ***J COLLINS***

Dirprwy Gyfarwyddwr  
Cyflenwi Seilwaith  
Llywodraeth Cynulliad Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

### **YR ATODLEN**

Y darn hwnnw o'r gefnffordd o bwynt ar linell ganol ei chyffordd â'r ffordd Sirol Dosbarth 3 rhif 224 wrth Lanyrafon i bwynt 1,200 o fetrau i'r de-orllewin o linell ganol y ffordd fynediad i Fraich Ddu, Glanyrafon.